



Ysgol Gymuned Cwm y Glo
Cwm y Glo
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 4DE

Pennaeth / Head teacher:

Mrs. Nia G. Oliver B.Add. / B.Ed.



01286 870 860



NiaGlynOliver@gwynedd.llyw.cymru

12 Hydref, 2018

Dyfodol Ysgol Cwm y Glo

Hoffwn gael y cyfle i egluro'r hyn sydd yn digwydd yn Ysgol Cwm y Glo, gan fy mod yn ymwybodol bod cryn siarad yn y gymuned.

Yn anffodus mae niferoedd disgyblion ar gofrestr yr ysgol wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd, ac yn sicr ers cyfnod euraid yr ysgol yn y nawdegau, o dan arweiniad Mrs. Mair Lloyd Hughes, pan roedd 100 o ddisgyblion wedi eu cofrestru. Mae nifer o resymau dros hyn, ac mae'n debyg bod gan bawb syniadau eu hunain, ond y gwir amdani yw nad oes llawer o blant oedran cynradd bellach yn y pentref. Mae'r teuluoedd sydd yma yn dewis mynychu ysgolion eraill.

Mae cyllideb ysgol yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr, yn ogystal â ffactorau eraill. Mae'r ysgol wedi bod yn derbyn arian gwarchodaeth gan yr Awdurdod ers sawl blynedd wrth i'r niferoedd ostwng, ac yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni, nid yw'n sefyllfa all barhau. Ar ddiwedd tymor yr haf cafwyd cyfarfod anodd rhwng aelodau o'r Corff Llywodraethu a'r Swyddog Addysg, ble daeth yn amlwg na fyddai'n bosib cynnal yr ysgol ar ôl Medi 2019, gyda rhagolygon niferoedd disgyblion yn gostwng i o dan 10. Cymerwyd y penderfyniad i fod yn gwbl agored gyda'r rhieni ac egluro'r sefyllfa iddynt; h.y. bod cyllideb i gynnal yr ysgol am y flwyddyn addysgol 2018 - 2019 ond byddai'n annhebyg gallu agor yn Medi 2019.

O ganlyniad, bu i'r ysgol agor yn Medi, wedi'r gwyliau, gyda 6 o ddisgyblion ar y gofrestr. Wrth i ddyddiau cynnar y tymor fynd heibio, daeth y rhieni i benderfyniadau anodd ac emosiynol i wneud ceisiadau i drosglwyddo eu plant i ysgolion cyfagos. Roeddynt yn amharod i wneud, yn ffyddlon i'r ysgol, ond yn gorfod meddwl am ddyfodol addysg eu plant, sy'n gwbl ddealladwy.

Ar ddydd Gwener, 13 Medi, 2018, gadawodd y disgybl olaf yr ysgol. Gyda'i hymadawiad, daeth holl draddodiad o genedlaethau o'i theulu o fynychu Ysgol Gymuned Cwm y Glo, i ben. Digwyddiad trist ac emosiynol i bawb.

Bellach, mae camau yn cael eu cymryd, gan yr Awdurdod, i gau'r ysgol yn swyddogol. Rhagwelir bydd hyn yn broses fydd yn cymryd tua blwyddyn i'w chwblhau. Yn y cyfamser, mae mwyafrif o staff yr ysgol wedi eu diswyddo, tra mae'r gweddill ohonom yn aros i roi trefn ar bethau, wrth i'r broses o gau'r ysgol symud ymlaen.



Wrth gwrs, wrth roi trefn ar bethau, mae hen luniau a hen ddogfennau yn dod ag atgofion yn ôl. Y bwrlwm, yr hwyl, y chwerthin a'r crio mae'r waliau wedi bod yn dyst iddynt dros y blynyddoedd. Rwy'n sicr pe byddai cyn disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned yn eu gweld - byddai hen atgofion yn cael eu hatgyfodi. I'r perwyl yna, cyn i bethau ddiplannu, mae Gareth Roberts, Menter Fachwen wedi bod draw i fynd trwy'r hen luniau gyda'r bwriad o gynnal diwrnod agored i'r gymuned, cyn i ddrysau'r ysgol gau am y tro olaf. **(Wedi ei drefnu ar gyfer 6/12/18)** Gobeithir trefnu hyn cyn y Nadolig. Felly, os oes gan unrhyw un ohonoch hen luniau o'r ysgol, ei disgyblion a'u gweithgareddau buaswn yn falch iawn o'u benthyg er mwy eu harddangos. (Cysylltwch gyda mi yn yr ysgol neu gyda Gareth ym Menter Fachwen.)

Wrth i'r newyddion ledaenu, mae hen ffrindiau'r ysgol yn cysylltu. Mae'n gysur clywed, heb eithriad, y sylwadau cadarnhaol o'r ysgol, yr ethos roedd pawb yn gweithio mor galed i'w gynnal, a'r croeso cynnes roedd pob ymwelydd yn teimlo roeddynt yn derbyn yma. Fe ddaw'r cyfle i gyfleu diolchiadau ffurfiol yn y man.

Gobeithiaf fod hyn yn rhoi crynhoad ac eglurhad o'r sefyllfa fel y mae yn bresennol. Mae'n gyfnod anodd a thrist ond rwy'n sicr, yn y dyfodol, daw'r gymuned i weld colli ysgol arbennig mae wedi bod yn fraint i'w gwasanaethu.

Nia G. Oliver

Nia G. Oliver
Pennaeth

